



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

POLISI ATAL

Dyddiad Cyhoeddi:	Ebrill 2021
Dyddiad Adolygu:	Ebrill 2024
Amllder Adolygu:	Bob 3 blynedd
Awdur:	Anne Pitman Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr
Lleoliad y Polisi:	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd y Polisi gan:	Tim Rheoli'r Coleg – 17.05.21 Bwrdd y Gorfforaeth – yn amodol ar gymeradwyaeth y bwrdd

Os hoffech chi, neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod, y ddogfen hon mewn print mawr, sain, yn electronig neu'n Saesneg, cysylltwch â:

Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr: Anne Pitman
E-bost: anne.pitman@gowercollegeswansea.ac.uk

MYNEGAI

1. Cyd-destun
2. Cwmpas
3. Datganiad o Ddiben
4. Corff y Polisi
 - 4.1 Polisi Siaradwyr Allanol a Digwyddiadau
 - 4.2 Partneriaeth
 - 4.3 Hyfforddiant Allanol
 - 4.4 Cefnogaeth Fugeiliol/Caplaniaeth a Lles
 - 4.5 Polisiâu TG
 - 4.6 Cyflwyniad i'r Ddyletswydd Atal i fyfyrwyr amser llawn, prentisiaid a chleientiaid
 - 4.7 Dolenni at bolisiau eraill
5. Rolau a Chyfrifoldebau
 - 5.1 Staff dynodedig gyda chyfrifoldeb dros Atal a Diogelu
 - 5.2 Disgwyliadau ar yr holl staff
6. Proses atgyfeirio
 - 6.1 Proses atgyfeirio ar gyfer myfyriwr, prentis nei gleient CGA
 - 6.2 Proses atgyfeirio ar gyfer myfyriwr cyswllt ysgol
 - 6.3 Proses atgyfeirio ar gyfer myfyriwr Addysg Uwch
7. Deall ac Adnabod Risgiau a Bregusrwydd Radicaleiddio
8. Rhestr o dermau – wedi'i chymryd o'r 'Arweiniad Dyletswydd i Atal Diwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr, Gorffennaf 2016
9. Proses CHANNEL – wedi'i chymryd o arweiniad Channel – GOV.UK
10. Arweiniad atodol Estyn

1. CYD-DESTUN

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi 'Arweiniad Dyletswydd Atal ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd y Ddeddf Diogelwch a Gwrthderfysgaeth 2015 i roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'.

Mae'n ofynnol i Goleg Gŵyr Abertawe gydymffurfio'n gyfreithiol â'r ddyletswydd hon fel Sefydliad Addysg Bellach a darparwr Dysgu Seilledig ar Waith ac i gyflawni'r Ddyletswydd Prevent.

Atal yw un o bedair ffrwd strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth, CONTEST.

Nod **CONTEST** yw gostwng y risg i'r DU a'i fuddiannau dramor. Mae **CONTEST** yn strategaeth gwrthderfysgaeth sydd wedi'i threfnu o amgylch pedair ffrwd waith, gyda phob un yn cynnwys nifer o amcanion allweddol:

- ATAL:** Rhoi stop ar bobl ddod yn derfysgwyr neu gefnogi derfysgaeth;
- ERLID:** I roi stop ar ymosodiadau gan derfysgwyr;
- DIOGELU:** Cryfhau ein hamddiffyniad yn erbyn ymosodiad gan derfysgwyr; a
- PARATOI:** Lliniaru ar effaith ymosodiad gan derfysgwyr

Atal yw'r unig ffrwd sy'n anhroseddol. Mae'r bygythiad gan derfysgwyr ar hyn o bryd yn y DU (i Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn ddifrifol. Golyga hyn bod ymosodiad yn hynod debygol.

Prif nodau'r Ddyletswydd Atal yw atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth trwy:

- i) Ddarparu cefnogaeth i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth
- ii) Ymateb i her ideolegol derfysgaeth ac agweddau ar eithafiaeth
- iii) Gwaith gydag ystod o sectorau megis addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, iechyd a'r rhyngryd, lle ceir risgiau o radicaleiddio

Hyrwyddo

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn hyrwyddo'r Polisi Atal a'r cynnig cwrs/darpariaeth prentisiaeth i ddarpar brentisiaid a phrentisiaid presennol trwy wefan y Coleg a thrwy lawlyfrau dysgwyr a chyflogwyr. Mae copïau o'n polisiau ar gael ar wefan y Coleg ac yn cael eu huwchlwytho ar ôl eu hadolygu. Mae'n ofynnol i'r holl aelodau o staff gynnal eu dealltwriaeth o niwed, cam-drin a diogelu. Yn ogystal â

hyrwyddo hawliau a chynhwysiant a chefnogi dysgwyr drwy roi gwybodaeth iddynt ynghylch sut i gadw eu hunain yn ddiogel, mae angen ymrwymiad gan ein holl gyflogwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Polisi/Dyletswydd Atal cyn dechrau unrhyw brentisiaeth.

Ymrwymiad

Fel coleg mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i amddiffyn pobl rhag cael eu radicleiddio. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer DSW yn cynnal asesiadau risg Atal a bydd yn monitro'r cynllun datblygu o ganlyniad.

2. CWMPAS

Mae'r Polisi yn gymwys i'r holl fyfyrwyr, prentisiaid, staff, llywodraethwyr, staff asiantaeth, gwirfoddolwyr, contractwyr, ac ymwelwyr.

3. DATGANIAD O DDIBEN

Mae diogelu unigolion rhag risg radicleiddio yn rhan annatod o ddyletswyddau diogelu ac mae'n debyg ei natur i ddiogelu plant ac oedolion rhag niweidiau eraill (e.e. Cyffuriau, gangiau, esgeuluso, cam-fanteisio'n rhywiol).

Diben y polisi yw sicrhau bod unrhyw fyfyrwr, prentis neu gleient sy'n cyflwyno fel rhywun sydd wrth risg o gael ei radicleiddio yn cael ei gefnogi yn briodol ac yn sensitif, trwy'r sianeli cywir ac i roi'r hyder i staff wneud atgyfeiriadau i'r Swyddogion Diogelu Dynodedig ar gyfer unrhyw ymddygiadau pryderus sydd i'w gweld ymlith myfyrwr neu brentisiaid.

4. Corff y Polisi

Gosoda Adran 26(1) y Ddeddf Diogelwch a Gwrthderfysgaeth 2015 Ddyletswydd ar Sefydliadau Addysg Bellach i roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, sy'n cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar ond hefyd eithafiaeth nad yw'n dreisgar (Gweler adran 8). Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, rhaid i ni weithredu'r isod:

4.1 Polisi Siaradwyr Allanol a Digwyddiadau

Amlinella'r Ddyletswydd Atal yn glir ein gofyniad i gael polisi Siaradwyr Allanol, sy'n dangos arweiniad clir i wahodd unrhyw siaradwyr allanol i'r Coleg. Rhaid i bolisi gynnwys system glir i asesu risg i bennu a ellir bwrw ymlaen a digwyddiad yn ddiogel.

Mae ein polisi Siaradwyr Allanol ar gael ar BIZ/Polisiau ac yn cynnwys ffurflen ganiatâd Siaradwyr Allanol yn yr atodiadau, i staff ei llenwi wrth wahodd siaradwyr allanol i mewn. Bydd aelodau CMT neu'r Swyddog Diogelu Arweiniol yn cynnal gwiriadau ffynhonnell agored ar addasrwydd y siaradwr ac yn gallu llofnodi i gadarnhau nad oes pryderon â'r digwyddiad

yn bwrw ymlaen. Os ceir pryderon, bydd y pryder yn cael ei gyfeirio at Un Man Cyswllt y Coleg (SPOC) i gyfeirio at Heddlu WECTU lleol a fydd yn cynnal asesiad risg RAG (coch, ambr, gwyrdd) ac yn cynghori'r Coleg ar unrhyw bryderon.

Gall aelodau CMT neu SPOC, o ganlyniad i hynny, gynghori ar fesurau i'w sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â'r digwyddiad yn ddiogel, neu sicrhau nad yw'r digwyddiad yn mynd rhagddo.

4.2 Partneriaeth

Mae'r Ddyletswydd i Atal yn gosod disgwyliad y bydd llywodraethwyr, penaethiaid, rheolwyr a phartneriaid eraill yn ymroi i ymgysylltu heddlu, byrddau diogelu lleol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'n cydlynnydd Atal **DfE** lleol. Mae gan y Coleg bartneriaethau gwaith gyda'r holl asiantaethau allanol a adnabuwyd.

4.3 Hyfforddi Staff

Cyfeiria'r arweiniad statudol at bwysigrwydd hyfforddiant ymwybyddiaeth Atal, i gyfarparu staff i adnabod pobl ifanc neu oedolion sydd wrth risg o gael eu tyngu i mewn i derfysgaeth ac i herio syniadau eithafol.

Mae'r hyfforddiant Diogelu presennol yn cynnwys Prevent/Atal. Mae moidiwlau Hyfforddiant Prevent/Atal yn orfodol i'r holl staff sy'n gweithio mewn AB neu ar y rhaglen brentisiaeth gan gynnwys:

- yr holl Uwch Reolwyr
- Llywodraethwr DSW
- Aseswyr
- Tiwtoriaid
- Darlithwyr

4.4 Cefnogaeth fugeiliol/caplaniaeth a lles

Amlinella'r Ddyletswydd ddisgwyliad y gefnogaeth les sydd ar gael i bob myfyriwr/prentis. Cynigia Coleg Gŵyr Abertawe gefnogaeth eithriadol, gyda Thiwtoriaid Personol, Swyddogion Cefnogi Myfyrwyr, Cwnselwyr, Hyfforddwyr Bugeiliol a Chynghorwyr Iechyd, yn ychwanegol mae gennym ficer sy'n mynychu campws Gorseinon yn rheolaidd, sy'n barod i gynig cefnogaeth ysbrydol i staff neu fyfyrwyr/prentisiaid ac sy'n barod i deithio i gampysau os oes angen. Rydym hefyd yn gallu gofyn i Imam Mosg Abertawe i gynig cymorth. Yn achos prentisiaid ar ein contract DSW yn Lloegr mae gennym restr o gaplandai lleol ac addoldai eraill ar gyfer pob ardal lle rydym yn darparu.

Rheoli ystafelloedd gweddio aml-ffydd

Mae protocol clir sy'n amlinellu'n glir defnydd ar yr ystafelloedd hyn, sydd wedi'i osod ar waliau pob ystafell aml-ffydd a myfyrdod.

4.5 Polisiau TG

Mae gofyn i Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr i "sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunydd gan derfysgwyr a deunydd eithafol wrth ddefnyddio'r rhyngwyd yn y Coleg, mae hyn yn cynnwys sefydlu lefelau priodol o hidlo".

(https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445915/Prevent_Duty_Guidance_For_Further_Education_England_Wales_-_Interactive.pdf). Mae hidlo caeth wedi'i sefydlu ar systemau TG yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, sy'n hysbysu aelodau o'r tîm TG o unrhyw chwiliadau o bryder, sy'n cael eu hadrodd ar unwaith i'r Swyddog Diogelu Arweiniol i'w prosesu yn briodol.

4.6 Cyflwyno'r Ddyletswydd i Atal i fyfyrwyr a phrentisiaid amser llawn

Dealla Coleg Gŵyr Abertawe bwysigrwydd meithrin cadernid i radcaleiddio ymhlith pobl ifanc ac oedolion ac mae wedi adeiladu hyn i'r rhaglen diwtorial ar gyfer holl fyfyrwyr llawn amser. Mae tiwtorialau wedi'u datblygu i archwilio Atal a gwerthoedd Sylfaenol Prydain, mae'r tiwtorialau yn caniatáu ar gyfer trafodaeth gritigol, dadleuon rhesymedig, ac yn mewnosod cydraddoldeb a chynhwysiant.

4.7 Bydd prentisiaid yn cwblhau modiwlau ETF sy'n cwmpasu:

- Radcaleiddio ac eithafiaeth
- Pwy rydych yn gallu ymddiried ynddynt
- Diogelwch ar-lein
- Gwerthoedd Prydeinig

Ceir gwybodaeth am fygythiadau a risgiau lleol gan Gydlynnydd Atal y rhanbarth a'i rhannu â'r staff cyflenwi. Yna caiff gwybodaeth gyd-destunol ei thrafod ar adegau priodol gyda'r prentis a'i chofnodi ar yr adolygiad o gynnydd lle cynhelir trafodaethau.

Amddiffyn ein myfyrwyr/prentisiaid

Bydd disgwyl i diwtoriaid ddeall ac ymgorffori Gwerthoedd Prydeinig yn ystod y prentisiaethau er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol ohonynt, yn gallu rhoi tystiolaeth ac enghreifftiau ohonynt a deall beth mae'n ei olygu i fod yn ddysgwr llwyddiannus a chymryd rhan ym mywyd a Phrydain heddiw.

Mae gennym brosesau recriwtio sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a bydd yn sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.

Byddwn yn cymryd pob cam angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion diogelu cyfreithiol cyfredol.

Byddwn yn gwneud y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau nad yw cyflogaeth sy'n cynnwys cyswllt rheolaidd â phobl ifanc o dan 18 oed neu ddysgwyr eraill sy'n agored i niwed yn cael ei chynnig i unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau penodol, neu y mae ei enw wedi'i gynnwys ar restrau o bobl yr ystyrir eu bod yn anaddas ar gyfer gwaith o'r fath yn ôl yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd. Rhaid ceisio gwybodaeth hefyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Byddwn yn cynnal asesiad risg digonol i sefydlu pa gamau sydd angen eu cymryd os yw eu gweithwyr yn dod i gysylltiad rheolaidd â Dysgwyr o dan 18 oed neu Ddysgwyr eraill sy'n agored i niwed.

4.8 Cysylltiadau at bolisiau eraill

Dylid darllen Polisi Atal Coleg Gŵyr Abertawe ar y cyd â:

- Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus
- Polisi Bwlio ac Aflonyddu
- Polisi Disgyblu Myfyrwyr
- Polisi Rhanddeiliaid Allanol
- Protocol Ystafell Myfyrdod a Gweddi Aml-fydd
- Polisi TG

5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae Polisi Atal Coleg Gŵyr Abertawe yn bolisi annibynnol, serch hynny, mae yn estyniad ar ein polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac mae'n ffitio o dan ein gweithdrefnau Diogelu. Gan hynny, dylid codi unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig.

5.1 Staff Dynodedig gyda Chyfrifoldeb dros Atal a Diogelu

Mae'r corff llywodraethu wedi penodi:

- Carol Green
- Ray Singh
- Chantal Patel

Fel llywodraethwyr gyda chyfrifoldeb arbennig dros ddiogelu plant ac oedolion bregus, ac unrhyw bryderon yn ymwneud ag Atal, bydd y Swyddog Diogelu Arweiniol yn eu cyflwyno wrth y Llywodraethwyr dynodedig mewn adroddiad bob tymor er mwyn trafod yn gadarn unrhyw feysydd pryder ac unrhyw newidiadau i'r ddyletswydd a allai effeithio ar y Coleg. Byddan nhw'n goruchwyllo pob gweithgaredd y bydd y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn eu cynnal

Yr aelodau staff dynodedig yw:

1. **Anne Pitman** (Swyddog Arweiniol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac Atal) – Ffôn 01792 284223/01792 890700 est: 4128
2. **Vicky Wannell** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac Atal) – Ffôn 01792 284227
3. **Ceri Low** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac Atal) – Ffôn 01792 284237
4. **Chris Williams** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac Atal) – Ffôn 3212/01792 284261/01792 284071
5. **Ian Billington** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ac Atal) – Ffôn 01792 890708
6. **Tamsyn Oates** (Swyddog Dynodedig Atal a Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 284071
7. **Adele Bubear** (Swyddog Dynodedig Atal a Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed DSW) – Ffôn 01792 284385

Bydd y Corff Llywodraethu a'r Grŵp Uwch Reolwyr yn derbyn yn flynyddol, adroddiad ar faterion Diogelu ac Atal a'r dyletswyddau yr ymgwymerwyd â hwy.

Bydd yr aelodau dynodedig o staff yn cadw cofnod o'r holl honiadau/pryderon a wnaed gan fyfyrwyr a phrentisiaid ac unrhyw atgyfeiriadau a wnaed.

5.2 Disgwyliadau ar yr holl staff

1. Creu a chefnogi ethos sy'n cynnal cenhadaeth a gwerthoedd craidd y Coleg.
2. Mynychu hyfforddiant Atal er mwyn cael y sgiliau i adnabod y rheini a allai fod yn fregus i radicaleiddio, yn gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar neu nad yw'n dreisgar a gwybod y camau priodol i'w cymryd os oes ganddynt unrhyw bryderon.
3. Adrodd am unrhyw bryderon ar unwaith yn ymwneud ag eithafiaeth neu radicaleiddio wrth Swyddog Diogelu Dynodedig.
4. Adrodd a symud unrhyw lenyddiaeth sy'n cael eu harddangos o amgylch y Coleg a allai achosi tramgwydd neu hyrwyddo barnau eithafol wrth Swyddog Diogelu Dynodedig.
5. Ymgysylltu â sefydliadau allanol lle fo'n briodol ar y cyd gyda Swyddog Diogelu Dynodedig.

6. PROSES ATGYFEIRIO

Dylai atgyfeiriadau o bryder gael eu cyfeirio bob amser at Swyddog Diogelu Dynodedig

- 6.1 Mae adrodd unrhyw bryder yn gynnar, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn ddibwys, yn bwysig i atal unrhyw gynnydd ar fygythiad gwirioneddol.

Bydd y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn trafod y pryderon ac os yw'n briodol byddant yn mynd â hwy at y Swyddog Diogelu Lleol a'r Un Man Cyswllt (SPOC) er mwyn atgyfeirio at CHANNEL neu gysylltu â Heddlu CT am gyngor ar sut i fwrw ymlaen. Dylai'r camau a gymerir fod yn gefnogol bob amser tuag at y myfyriwr, y prentis neu'r cleient ac yn gymesur.

- 6.2 Os yw'r myfyriwr ar y rhaglen 14-16, bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig, yn cysylltu â Swyddog Diogelu Dynodedig yr Ysgol er mwyn trafod yr atgyfeiriad gyda hwy. Bydd y sgwrs a geir gyda'r ysgol yn cael ei dogfennu ar y gronfa ddata Diogelu.

- 6.3 Os yw'r myfyriwr ar raglen Addysg Uwch, bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn cysylltu â Swyddog Diogelu Dynodedig y Brifysgol i drafod yr atgyfeiriad gyda hwy. Bydd y sgwrs a geir gyda'r brifysgol yn cael ei dogfennu ar y gronfa ddata Diogelu'r Coleg.

7. DEALL AC ADNABOD Y RISGIAU A BREGUSRWYDD RADICALEIDDIO

Nid oes unrhyw broffil amlwg o unigolyn sy'n debyg o gymryd rhan mewn eithafiaeth neu un dangosydd o ba bryd y gallai unigolyn symud i fabwysiadu trais i gefnogi syniadau eithafol.

Gall unigolyn gael ei dynnu at radicaleiddio ar unrhyw oed. Mae'r broses o radicaleiddio yn wahanol i bob unigolyn ac fe all ddigwydd dros gyfnod estynedig neu o fewn cyfnod byr iawn o amser

Gellir tynnu unigolion i mewn i drais neu gallant fod yn agored i negeseuon grwpiau eithafol trwy amryw dulliau. Gallai'r rhain gynnwys dylanwad:

- Aelodau'r teulu
- Ffrindiau
- Cyswllt uniongyrchol gyda grwpiau a sefydliadau eithafol, neu
- Ar-lein – trwy'r rhyngwyd
- Ar y teledu a chyfryngau

Gallai'r rhestr a ganlyn nodi bregusrwydd i radicaleiddio ac yn adnabod rhai mathau o fregusrwydd, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac mae angen dyfarniad proffesiynol a chymesuredd i sicrhau bod pryderon yn cael eu hasesu a'u chwyddo'n briodol .

1. Rhannu i Twitter, rhannu i Facebook60, rhannu i LinkedIn
2. Bod yn or-gyfrinachol wrth wyllo pethau ar-lein.
3. Arddangos teimladau o unigedd neu fynegiannau o ffordd o feddwl 'ni a nhw' – arwydd o synnwyr unigedd cymdeithasol.

4. Dod yn fwy dadleuol neu'n dominyddu gyda'u safbwyntiau, bod yn gyflym i feirniadu'r rheini sy'n anghytuno ac yn anwybyddu safbwyntiau sy'n groes i rai eu hunain: bod yn anoddefgar o safbwyntiau croes
5. Canfyddiad cryf o anghyfiawnder.
6. Ymddangosiad o gwyno
7. Cwestiynu eu ffydd neu hunaniaeth.
8. Lawrlwytho neu hyrwyddo cynnwys eithafol/mynediad at bropaganda heb ei sensro.
9. Unigedd cymdeithasol – colli diddordeb mewn gweithgareddau yr oeddynt yn arfer eu mwynhau, pellhau eu hunain oddi wrth ffrindiau a grwpiau cymdeithasol. A yw 2. a 7. yn debyg?
10. Ymddangosiad wedi newid – newid ffordd o wisgo a/neu ymddangosiad personol.
11. Trefnau anarferol, patrymau teithio neu ddyheadau.
12. Profiad o garcharu/cyswllt â grwpiau troseddol.

8. RHESTR O DERMAU – WEDI'I THYNNU O 'ARWEINIAD DYLETSWYDD I ATAL DIWYGIEDIG AR GYFER CYMRU A LLOEGR, GORFFENNAF 2016'

'Rhoi sylw dyledus' - mae'n golygu y dylai awdurdodau rhoi swm priodol o bwysau ar yr angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth wrth iddynt ystyried yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i sut y maen nhw'n ymgymryd â'u swyddogaethau arferol.

'Eithafiaeth' – fe'i diffinnir yn strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain, gan gynnwys democratiaeth, rheolau'r gyfraith, rhyddid unigol a pharch ar y cyd a dangos goddefgarwch tuag at wahanol ffydd a chredoau. Rydym hefyd yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth alwadau am farwolaeth aelodau o'n lluoedd arfog, boed hynny yn y wlad hon neu dramor.

'Ymyraethau' - prosiectau sydd wedi'u bwriadu i ddargyfeirio pobl sy'n cael eu tynnu i weithgarwch terfysgaeth. Gall ymyraethau gynnwys mentora, cwnsela, cefnogaeth ddiwinyddol, annog ymgysylltiad dinesig, datblygu rhwydweithiau cymorth (strwythurau teuluol a chyfoedion) neu ddarparu gwasanaethau prif ffrwd (addysg, cyflogaeth, iechyd, ariannol neu dai).

'Eithafiaeth nad yw'n dreisgar' - eithafiaeth, fel y diffinnir uchod, nad yw'n cyd-fynd â thrais.

'Atal' – yng nghyd-destun y ddogfen hon mae'n golygu gostwng neu ddileu risg o unigolion yn cymryd rhan mewn terfysgaeth. Mae atal yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i adnabod ac atgyfeirio'r rheini sydd wrth risg o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth i ymyraethau priodol. Anela'r ymyraethau hyn at ddargyfeirio pobl fregus rhag radicaleiddio.

'Radicaleiddio' – mae'n cyfeirio at y broses pan ddaw person i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau o derfysgwyr.

'Diogelu' – y broses o ddiogelu pobl fregus, boed hynny rhag trosedd, ffurfiau eraill o gam-drin neu (yng nghyd-destun y ddogfen hon) rhag cael eu tynnu i mewn i weithgaredd cysylltiedig â therfysgaeth.

Diffiniad cyfredol y DU o 'derfysgaeth' - fe'i rhoddir yn y Ddeddf Terfysgaeth 2000 (TACT 2000). Yn gryno, mae'n diffinio terfysgaeth fel camau sy'n peryglu neu'n achosi trais difrifol i berson/pobl; achosi difrod difrifol i eiddo; neu yn ymyrryd yn ddifrifol ar system electronig. Rhaid i'r defnydd neu fygythiad fod wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar lywodraeth neu i ddychryn y cyhoedd ac fe'i gwneir at ddiben hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.

'Troseddau cysylltiedig â therfysgaeth' – y rheini (megis llofruddiaeth) nad ydynt yn droseddau o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth, ond dyfernir eu bod wedi'u cyflawni mewn perthynas â therfysgaeth.

'Bregusrwydd' – mae'n disgrifio cyflwr o allu cael eu hanafu; anodd eu hamddiffyn; agored i ymosodiad moesol neu ideolegol. O fewn Atal, disgrifia'r gair ffactorau a nodweddion sy'n gysylltiedig â bod yn agored i radicaleiddio.

9. **Proses CHANNEL – wedi'i dynnu o arweiniad Channel – GOV.UK**

"Channel" yw'r enw ar y broses aml asiantaeth o adnabod a chyfeirio person at ymyrraeth a chefnogaeth gynnar ar gyfer y rheini sydd wrth risg o radicaleiddio. Mae'n elfen allweddol o'r strategaeth Atal. Nid yw'n droseddol ac mae'r atgyfeiriad yn wirfoddol. Defnyddia'r broses Channel gydweithredu cyfredol rhwng awdurdodau lleol (Addysg, diogelwch cymunedol, timau gofal cymdeithasol ayyb), partneriaid statudol (iechyd, gwasanaethau rheoli troseddwy, heddlu) a'r gymuned leol i:

- Adnabod pobl wrth risg o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth;
- Asesu natur a graddau'r risg honno; a
- Datblygu'r cynllun mwyaf priodol ar gyfer yr unigolion dan sylw

Am wybodaeth bellach ar Channel:

<https://www.gov.uk/government/publications/channel-guidance>

10. **Fframwaith Ofsted ac Estyn**

Ar gyfer ein dysgwyr yn Lloegr, dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r canllawiau canlynol:

<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education--2>

Yng Nghymru, dylid ei ddarllen ochr yn ochr â **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**.

11. Y GYMRAEG

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Llofnod: _____

Unigolyn sy'n cymeradwyo'r polisi:

Dyddiad: _____